| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| **DYDDIAD** | **6ed MEHEFIN, 2017** |
| **PWNC** | **ADOLYGIAD O FFINIAU ETHOLAETHOL GWYNEDD** |
| **AWDUR** | **Uwch Reolwr (Cefnogaeth Gorfforaethol)** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Cyflwyno cynigion drafft i'r Cygnor llawn gyda golwg ar eu cyfeirio ymlaen i'r Comisiwn Ffiniau** |

**Cefndir**

1. Yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth, derbyniodd y Cyngor adroddiad ar adolygiad y Comisiwn Ffiniau o ffiniau etholaethol Cyngor Gwynedd. Mae'r adroddiad sydd yn esbonio'r cefndir i'r adolygiad i'w weld trwy ddilyn y ddolen hon:- https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/ielistdocuments.aspx?cid=130&mid=1657&ver=4&

2. Mae cynigion y Comisiwn yn cael eu gyrru gan eu polisïau sydd yn cynnwys dogfen bolisi ar faint cynghorau sydd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad hwn. Wrth weithredu'r polisiau hynny, bydd cynigion y Comisiwn, maes o law, yn debyg o arwain at leihad yn y nifer o aelodau ar y Cyngor o'r 75 presennol i oddeutu 67 ar adeg etholiad 2022 gyda lleihad pellach i ddilyn. Mae cyfle i'r Cyngor geisio dylanwadu ar y cynigion hyn a cytunodd y Cyngor llawn i ofyn i swyddogion greu cynigion drafft i'w rhannu gyda holl aelodau'r Cyngor yn dilyn yr etholiad. Dylid nodi bod y cynigion wedi eu llunio yn bennaf i gyfarch problemau mewn etholaethau allai fod dan fygythiad yn sgil gwaith y Comisiwn. Mewn rhai sefyllfaoedd, mae hynny wedi arwain at newidiadau sy'n dilyn mewn etholaethau cyfagos.

3. Ar gyfer Gwynedd, mae'r Comisiwn Ffiniau wedi cynnig mai'r cyfartaledd o etholwyr i bob aelod fyddai 1,243 o etholwyr. Yn amlwg mae pob etholaeth yn wahanol ac nid yw'n ymarferol glynu yn rhy llym at y ffigwr hynny ym mhob achos. Felly y nod yn y cynigion drafft yw caniatáu amrywiaeth o hyd at 25% uwchben neu o dan y nifer hynny, ar sail y math o amrywiaeth y mae'r Comisiwn wedi ei ganiatáu yn y gorffennol.

4. Egwyddor arall sydd wrth wraidd y cynigion hyn yw ceisio lleihau'r nifer o etholaethau dau aelod yn y sir. Barn y Cyngor yw, lle mae daearyddiaeth a natur cymunedau yn caniatáu hynny, y dylid cael etholaethau un aelod er mwyn symleiddio atebolrwydd i etholwyr.

6. Mae'n bwysig pwysleisio un peth arall cyn sôn ymhellach am y cynigion penodol. Tra mae'r Cyngor yn deall yn iawn bod nifer o elfennau yn effeithio llwyth gwaith cynghorwyr, yr unig ystyriaeth y mae'r Comisiwn yn rhoi sylw iddo go iawn yw nifer yr etholwyr. Felly, er y gellir cyfeirio at boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr yn cynnwys poblogaeth dymhorol neu boblogaeth myfyrwyr wrth gyflwyno sylwadau, nid yw, mewn gwirionedd, yn ystyriaeth y bydd y Comisiwn yn rhoi sylw iddo. Mae angen herio hyn gyda chais i'r Comisiwn Ffiniau gyfiawnhau hyn yn nhermau'r angen am gynrychiolaeth leol effeithiol i'r boblogaeth gyfan.

**Dim Newidiadau**

7. 1 Ar hyn o bryd, awgrymir nad yw'r Cyngor yn cynnig unrhyw newidiadau i'r etholaethau a ganlyn oherwydd eu bod, yn gyffredinol, yn gyfforddus o'r math o faint sydd yn debygol o fod yn dderbyniol i'r Comisiwn:-

**Arfon** – Arllechwedd, Bethel, Deiniolen, Dewi (Bangor), Gerlan, Glyder (Bangor), Llanberis, Llanrug, Ogwen, Pentir, Penygroes, Tregarth a Mynydd Llandygai, Y Felinheli.

**Dwyfor** – Criccieth, Dolbenmaen, Llanystumdwy, Nefyn, Porthmadog (Dwyrain), Porthmadog (Gorllewin), Porthmadog (Tremadog), Pwllheli (De), Pwllheli (Gogledd)
**Meirionnydd** – Abermaw, Brithdir a Llanfachreth / Y Ganllwyd / Llanelltyd, Bowydd a Rhiw, Corris a Mawddwy, Dolgellau (De), Dolgellau (Gogledd), Penrhyndeudraeth, Y Bala.

7.2 Mae'n werth nodi bod dwy etholaeth yn Nwyfor lle nad ydym yn awgrymu newid ar hyn o bryd ond y gallai'r Comisiwn ystyried eu newid, os nad eleni, yn sicr erbyn yr adolygiad fydd yn digwydd ar ôl etholiadau 2022. Mae etholaeth Dolbenmaen (efo 920 o etholwyr) fymryn o dan y trothwy a osodwyd o 25% yn llai na'r cyfartaledd ac etholaeth Porthmadog (Tremadog) (efo 943 o etholwyr) ar hyn o bryd fymryn dros y trothwy hynny. Ni awgrymir newid ar hyn o bryd ond, os y cyfyd yr angen i wneud, yr unig bosibilrwydd y gellid ei ystyried yw rhannu ward Porthmadog (Tremadog) fel bod rhai o'r wardiau yno yn ymuno ag etholaeth Dolbenmaen ac eraill yn symud i un o ddwy etholaeth arall Porthmadog. Byddai hynny yn arwain at leihad o 1 sedd.

**Cynigion Penodol i Newid**

8. Dyma gynigion penodol fesul ardal ar gyfer newid ffiniau etholaethol i'r pwyllgor eu trafod a dod i gasgliadau yn eu cylch

8.1 <u>Ardal Dinas Bangor</u>

Mae'n rhaid cydnabod bod y nifer o etholwyr ym Mangor wedi lleihau'n sylweddol yn dilyn lleihad sylweddol yn nifer o bobl sydd ar y gofrestr etholwyr, fel canlyniad i'r angen i bawb gofrestru'n unigol.

Mae hyn yn arwain at y cynigion drafft hyn er ystyriaeth:-
- Etholaeth Menai – Y ward yn newid o fod yn etholaeth 2 aelod i fod yn etholaeth un aelod efo tua 939 o etholwyr sydd yn agos iawn i'r ffin isaf
- Etholaethau Marchog – Y ward yn newid o fod yn etholaeth 2 aelod i fod yn etholaeth un aelod efo tua 1,558 o etholwyr
- Etholaethau Hendre, Hirael, Deiniol a Garth (Cyfanswm o tua 2,952) – Awgrymir sefydlu ffiniau newydd ar gyfer yr etholaethau hyn gan lunio dau neu dri etholaeth gydag un aelod yr un i'r ddau neu dri etholaeth. Rydym yn croesawu cynigion ar gyfer y ffiniau hynny. Tra mae etholaeth dau aelod yn bosib, dymuniad y Cyngor yw peidio â chael etholaeth 2 aelod os oes modd ei osgoi.

(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Mae'n amlwg bod materion o ran y galw ar lwyth gwaith cynghorydd sy'n cael ei greu gan boblogaeth o fyfyrwyr ac mae'n ymddangos yn afresymol nad yw hyn yn cael ei adlewyrchu yng ngwaith y Comisiwn Ffiniau. Fodd bynnag, o gymryd y cyfyngiadau hynny, mae'r Cynghorydd Steve Collings wedi awgrymu ei fod yn ymddangos mai'r uniad callaf fyddai dod â Garth-Hirael ynghyd i greu etholaeth ger y môr a Deiniol-Hendre i etholaeth stryd fawr / canol y ddinas.

Ceiswyd barn Cyngor Dinas Bangor a gobeithir adrodd y farn hynny yn y cyfarfod

8.2 Ardal Tref Caernarfon

Gwneir rhai awgrymiadau i dacluso ffiniau yn nhref Caernarfon, gan ddefnyddio ffiniau naturiol Ffordd Llanberis a'r Ffordd Gyswllt trwy'r dref fel ffiniau amlwg a naturiol.

Mae hyn yn arwain at gynnig sydd yn arwain at leihau maint etholaeth Menai i tua 1,500, lleihau maint etholaeth Cadnant i tua 1,307 a chynnydd ym maint etholaeth Peblig i tua 1,485

Mae hyn yn gadael sefyllfa etholaeth bresennol Seiont, fyddai, yn sgil y newidiadau uchod, yn etholaeth 2 aelod gydag oddeutu 2,392. Mae gan y Cyngor ddewis o barhau gydag etholaeth dau aelod neu ei rannu i fewn i ddwy etholaeth – Etholaeth Canol Tref Caernarfon o oddeutu 1,177 ac Etholaeth Hendre o tua 1,215 o etholwyr. Gallai'r ffigurau hynny newid gan bod angen mewnbwn mwy lleol ar yr union rhaniad rhwng y ddwy etholaeth.
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Ceiswyd barn Cyngor Tref Caernarfon a gobeithir adrodd y farn hynny yn y cyfarfod

O ran sylwadau lleol, mae'r Cynghorydd Roy Owen wedi anghytuno â'r cynigion tra mae'r Cynghorydd Cai Larsen wedi cytuno eu bod yn synhwyrol ond y byddai angen edrych ar leoliad ac addasrwydd y gorsafoedd pleidleisio o fewn y wardiau Seiont a Hendre newydd. Mae'r Cynghorwyr Ioan Thomas a Jason Parry hefyd wedi datgan eu cefnogaeth i'r cynigion.

8.3 Ardal Ffestiniog

Tra mae ardal Bowydd a Rhiw yn iawn fel ag y mae, mae etholaeth Diffwys a Maenofferen gyda 750 o etholwyr yn rhy fechan ac etholaeth Teigl (1,315) ychydig yn fwy na'r cyfartaledd. Byddai'r ddwy etholaeth gyda'i gilydd yn gwneud etholaeth o 2,065 o etholwyr sydd yn medru cyfiawnhau 2 aelod. Gan bod y Cyngor yn ceisio osgoi etholaeth 2 aelod, awgrymir sefydlu ffin newydd rhwng etholaeth Diffwys a Maenofferen ac etholaeth Teigl, ar draws Ffordd Manod, sydd yn caniatáu dwy etholaeth un aelod.
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Mae'r Cynghorydd Glyn Daniels yn cytuno gyda symud y ffin er mwyn cynyddu maint etholaeth Diffwys and Maenofferen. Mae Cyngor Tref Ffestiniog wedi cynnig ffin cymunedol naturiol yn uwch i fyny Ffordd Manod ond mae hyn anhebygol o fodloni'r Comisiwn Ffiniau gan mai dim ond i ychydig dros 800 y byddai'n dod â nifer yr etholwyr.

8.4 Ardal Tywyn

Ar hyn o bryd mae etholaeth Tywyn yn etholaeth dau aelod o 2,388. Gan bod y Cyngor yn ceisio osgoi etholaeth 2 aelod, awgrymir sefydlu dau etholaeth newydd, Tywyn (Morfa) gyda 1,240 o etholwyr a Tywyn Gorllewin (1,094) gan adael Tywyn (Dwyrain) gyda 54 o aelodau.

Awgrymir, am y tro, mai gyda Tywyn Gorllewin y dylai hynny eistedd os nad oes angen ei gysylltu gydag etholaeth Aberdyfi a Pennal i gynyddu maint yr etholaeth hynny o'r 884 i 938 (sydd rhyw fymryn lleiaf o fewn yr amrywiaeth o 25% yr ydym wedi ceisio darparu ar ei gyfer. Fodd bynnag, mae rhagolygon am leihad pellach yn nifer etholwyr Aberdyfi a Pennal erbyn 2022 i llai nag 800 erbyn 2022 ac mae'n ymddangos y bydd yn anghynaladwy i'r dyfodol.
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Mae'r Cynghorwyr Anne Lloyd-Jones a Mike Stevens wedi datgan eu cefnogaeth i'r cynigion.

8.5 Ardal Abersoch, Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog, Morfa Nefyn a Llanbedrog

Mae amryw o etholaethau presennol angen sylw yn yr ardal hon gydag etholaethau Abersoch (523) Llanbedrog (734), Aberdaron (724) Tudweiliog (660), Morfa Nefyn ac Edern (897) a Llangian (503) oll yn rhy fach i deilyngu seddau yn ôl canllawiau'r Comisiwn, ac mae tri opsiwn y gellir ei ystyried:-

Opsiwn 1

Uno etholaethau Llanbedrog (768) a Llangian (503) i greu un etholaeth newydd o 1,271 o etholwyr ( y cyfan o gymuned Llanbedrog) ac un ward o Llanengan

Uno etholaethau Abersoch (523), Llanengan (333) a Botwnnog (246) i greu un etholaeth newydd o 1,102 o etholwyr (Dwy ardal Gymuned - y gweddill o gymuned Llanengan ac un ward o gymuned Botwnnog)

Uno wardiau cymunedol Gogledd De a Dwyrain Aberdaron (733), Bryncroes (265) a Mellteyrn (213) i greu un etholaeth newydd o 1,211 o etholwyr (Y cyfan o gymuned Aberdaron a dwy ward o gymuned Botwnnog)

Uno etholaethau Tudweiliog (660) a Morfa Nefyn ac Edern (897) i greu un etholaeth newydd o 1,557 o etholwyr (un ardal yn cynnwys un cyngor cymuned cyfan (Tudweiliog) a rhan o gymuned Nefyn

DS Mae hyn oll yn arwain at leihad o dri aelod

Opsiwn 2

Awgrymir dilyn ffin naturiol o fewn y gymuned, sef Croesffordd Coed y Fron, gydag un etholaeth ar gyfer cymuned Llanbedrog yn ymestyn o Benrhos i groesffordd Goed y Fron, sydd yn cynnwys Llanbedrog (768) a Mynytho hyd at Coed y Fron (tua 450) (Etholaeth un aelod gyda tua 1,218 o etholwyr). Byddai'r etholaeth arall ar gyfer cymuned Llanengan o groesffordd Coed y Fron fydd yn cynnwys y gweddill o Langian (tua 53 o etholwyr y tu hwnt i Mynytho), Llanengan (333) ac Abersoch (523) a ward Botwnnog ei hun (246) yn cynnig etholaeth un aelod gyda tua 1,155 o etholwyr.

Byddai'n hynny'n gadael y newidiadau a ganlyn ar gyfer yr etholaethau eraill:-

Uno wardiau cymunedol Gogledd De a Dwyrain Aberdaron (733), Bryncroes (265) a Mellteyrn (213) i greu un etholaeth newydd o 1,211 o etholwyr (Y cyfan o gymuned Aberdaron a dwy ward o gymuned Botwnnog)
Uno Tudweiliog (660) a Morfa Nefyn ac Edern (897) i greu un etholaeth newydd o 1,557 o etholwyr (un ardal yn cynnwys un cyngor cymuned cyfan (Tudweiliog) a rhan o gymuned Nefyn

DS Mae hyn oll yn arwain at leihad o dri aelod

Opsiwn 3 – Ystyriwyd opsiwn arall, sef

Uno etholaethau presennol Abersoch (523) a Llanengan (836) i greu un etholaeth newydd o 1,359 o etholwyr (un ardal Cyngor Cymuned)

Uno etholaethau Aberdaron (733) a Botwnnog ( 724) i greu etholaeth newydd o 1,457 o etholwyr (dau Gyngor Cymuned cyfan)

Uno etholaethau Tudweiliog (660) a Morfa Nefyn ac Edern (897) i greu un etholaeth newydd o 1,557 o etholwyr (dau ardal Cyngor Cymuned cyfan)

DS Mae hyn oll yn arwain at leihad o dri aelod ond nid oedd yn cyfarch sefyllfa etholaeth Llanbedrog sydd dan fygythiad gan mai dim ond 768 etholwr ynddo
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Derbyniwyd gohebiaeth gan Gyngor Cymdeithas Botwnnog yn mynegi pryder am y meini prawf niferoedd y mae'r Comisiwn yn ei ddefnyddio ac effaith posib hynny ar gynrychiolaeth ardaloedd gwledig yn sgil sefydlu etholaethau gwledig enfawr.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda'r aelodau lleol gyda rhai yn mynegi barn ar sail yr opsiynau oedd ar y bwrdd. O'r opsiynau ar y bwrdd, roedd y Cynghorwyr Angela Russell, Dewi Wyn Roberts a John Brynmor Hughes yn ffafrio Opsiwn 2 a'r Cynghorydd Gareth Williams yn ffafrio Opswn 3. Fodd bynnag, prif gonsyrn yr aelodau oedd y ffaith bod yr opsiynau hyn oll yn arwain at leihad o dri yn y nifer o gynghorwyr dros yr ardal ac effaith hynny ar gynrychiolaeth leol effeithiol i'r boblogaeth gyfan. Mae trafodaethau yn parhau ymysg y cynghorwyr lleol ac mae'n debygol y da cynnig arall gerbron y gellir adrodd ar lafar amdano yn y pwyllgor.

8.6 <u>Ardal Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr</u>

Mae amryw o etholaethau presennol angen sylw yn yr ardal hon gydag etholaeth Llanbedr (789) yn rhy fychan yn ôl canllawiau'r Comisiwn ac etholaethau eraill sydd angen sylw yn y tymor hwy o ran eu maint. Mae dau opsiwn y gellir ei ystyried:-

Opsiwn 1

Newid 4 sedd (Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr) yn 3 yn effeithio Dyffryn Ardudwy (1,179), Llanbedr (442), Llanfair (347) Harlech (1,045), Talsarnau (428), Maentwrog (428) a Trawsfynydd (672). Felly, yr etholaethau newydd fyddai:-
Un sedd - Harlech, Talsarnau a Llanfair (1820) (3 ardal cyngor cymuned cyfan)
Un sedd – Llanbedr a Dyfffryn Ardudwy (1,621) (2 ardal cyngor cymuned cyfan)
Un sedd - Trawsfynydd a Maentwrog - dim newid (ardal un cyngor cymuned)

DS Mae'r cynnig hwn yn arwain at leihad o 1 sedd

Opsiwn 2

Mae opsiwn 2 yn un arall a ystyriwyd ond ystyriwyd bod yr etholaeth arfaethedig ar gyfer Trawsfynydd, Talsarnau a Maentwrog ddim yn gwneud synnwyr o ran cysylltiadau cymunedol yn lleol

Newid 4 sedd presennol (Trawsfynydd, Harlech, Dyffryn Ardudwy a Llanbedr) yn 3 yn effeithio Dyffryn Ardudwy (1,179), Llanbedr (442), Llanfair (347) Harlech (1,045), Talsarnau (428), Maentwrog (428) a Trawsfynydd (672). Felly, yr etholaethau newydd fyddai:-
Un sedd - Dyffryn Ardudwy a Llanbedr (1,621) (2 ardal cyngor cymuned cyfan)
Un sedd – Llanfair, Harlech heb Talsarnau (1,392) (Dau ardal cyngor cymuned cyfan)
Un sedd – Talsarnau, Maentwrog a Trawsfynydd (1,534) (3 ardal cyngor cymuned cyfan)

DS Mae hyn yn arwain at leihad o 1 sedd
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Mae'r Cynghorydd Elfed Roberts wedi datgan nad oes ganddo deimladau cryf y naill ffordd neu'r llall ar y dewisiadau hyn.

8.7 Ardal Llanrug

Mae angen tacluso yng nghylch Llanrug er mwyn gwastatau sefyllfa'r etholaethau trwy ddelio â chymunedau Cwm y Glo (438), Brynrefail (224) a Ceunant (305) a hefyd Penisarwaun (560) a Rhiwlas (533)

Cynigir dwy etholaeth wedi eu haddasu:-
Un etholaeth Cwm y Glo , Brynrefail a Ceunant (967)
Un etholaeth Penisarwaun a Rhiwlas (1,093)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Mae'r Cynghorwyr Charles Jones a Berwyn Parry Jones o blaid y cynnig hwn, sydd wedi ei gefnogi hefyd gan Gyngor Cymuned Llanrug. Dymuniad y Cynghorydd Elwyn Jones fyddai cadw etholaeth Penisarwaun fel ag y mae.

8.8 Ardal Bontnewydd, Llanfaglan a Chaeathro

Mae etholaeth bresennol Bontnewydd ac mae'r cysylltiadau cymunedol lleol o fewn yr ardal yn awgrymu bod angen edrych eto ar ffiniau'r etholaeth.

Awgrymir uno wardiau presennol Bontnewydd a Llanfaglan (840) a Caeathro (213) i greu un etholaeth newydd o 1,053 (ardal un cyngor cymuned cyfan ac un ward o gymuned Waunfawr)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.9 Ardal Waunfawr, Betws Garmon a Rhyd-Ddu

Mae'r newidiadau i'r etholaethau hyn i raddau yn dod yn sgil y newid arfaethedig ar gyfer Bontnewydd, Llanfaglan a Chaeathro ond hefyd yn awgrymu cyswllt cymunedol mwy addas rhwng y tri pentref dan sylw.

Awgrymir dwyn ynghyd Waunfawr (870) Betws Garmon (121) a Rhyd-Ddu (61) i greu un etholaeth newydd o 1,052 (Ward o gymuned Waunfawr a'r cyfan o gymuned Betws Garmon)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.10 Ardal Dinas a Dinas Dinlle

Mae hwn eto yn newid sydd yn ceisio ymateb i newid yn ardal Bontnewydd i raddau ond mae hefyd yn ceisio defnyddio'r cymunedau o gwmpas ac o dan Ffordd Fawr yr A499 fel ffin gweddol naturiol rhwng cymunedau.

Awgrymir dwyn ynghyd Dinas (499) a Dinas Dinlle (435) i greu un etholaeth newydd o 934 o etholwyr
(Un ward o gymuned Llandwrog ac un ward o gymuned Llanwnda)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.11 Ardal Llanllyfni, Talysarn, Nantlle a Nebo

Mae ward presennol Talysarn (sydd yn cynnwys Carmel) wedi bod yn destun trafodaeth lleol ers tro oherwydd y ffin naturiol amlwg rhwng dau brif ardal yr etholaeth ac mae amryw o gymunedau bychan o fewn yr etholaeth. Awgrymir dwyn ynghyd Llanllyfni (513) Talysarn (714) Nantlle (152) a Nebo (253) i greu un etholaeth newydd o 1,612 (Cyngor Cymuned Llanllyfni i gyd heblaw am Benygroes)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Mae'r Cynghorydd Dilwyn Lloyd wedi datgan nad oes ganddo wrthwynebiad i'r awgrym er bod yr etholaeth newydd (Groeslon, Carmel a Ceserea – wele isod) yn amrywiol iawn o ran demograffeg

8.12 Ardal Groeslon, Carmel a Ceserea

Mae hwn yn newid yn awr sydd yn delio â'r gweddill o ward Talysarn sy'n cael ei effeithio gan y newid uchod. Mae hefyd yn adlewyrchu newidiadau cymunedol diweddar yn cynnwys sefydlu ysgol newydd ar gyfer yr ardal.

Awgrymir felly ddwyn ynghyd Groeslon (849) Carmel (396) a Ceserea (241) i greu un etholaeth newydd = 1,486 (Cyngor Cymuned Llandwrog i gyd heblaw am ward Dinas Dinlle)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.13 Ardal Rhostryfan a Rhosgadfan

Mae newid arall a awgrymir yn cynnig dilyn mwy o ffiniau naturiol cymunedol yn yr ardal. Mae etholaeth presennol Llanwnda yn croesi un o'r ffiniau hynny ac yn rhedeg o Saron yn un pen, ar draws yr A499 i ben uchaf Rhosgadfan.

Awgrymir creu uned gymunedol fwy synhwyrol trwy ddwyn ynghyd pentrefi sydd yn gymdogion naturiol Rhostryfan (515) a Rhosgadfan (433) i greu un etholaeth newydd = 948 (Cyngor Cymuned Llanwnda i gyd ond heb gynnwys ward Dinas yr argymhellir ei fod yn symud at Dinas Dinlle). Mae peth pryder am faint yr etholaeth hyn yn 2022 ond mae'r cynnig sydd gerbron yn un synhwyrol ar hyn o bryd.
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.14 Ardal Clynnog, Trefor, Llithfaen a'r Ffôr

Mae amryw o etholaethau presennol angen sylw yn yr ardal hon gydag etholaeth Clynnog sydd â dim ond 713 etholwr angen sylw penodol. Mae dau opsiwn y gellir ei ystyried:-

Opsiwn 1

Awgrymir dwyn ynghyd Clynnog (713) a Trefor (528) i greu un etholaeth newydd o 1,241 (ardal dau gyngor cymuned).

Byddai hyn hefyd yn arwain at newid cysylltiol trwy ddwyn ynghyd Llithfaen (243), Carnguwch (30), Llanaelhaearn (238) a'r Ffor (540) i greu un etholaeth newydd o 1,051 (ardal ar draws dri Chyngor Cymuned)

Canlyniad Opsiwn 1 yw lleihau un sedd

Opsiwn 2:-

Uno gyda Ward Nebo o Gymuned Llanllyfni (236) – Byddai hynny'n creu etholaeth o 946 ond byddai yn annhebyg o greu uned daearyddol sy'n gwneud synnwyr gan y byddai disgwyl i gymuned Nebo yn edrych i gyfeiriad Llanllyfni a nid Clynnog. Byddai hefyd yn croesi ffiniau Cymuned ac Ardal.
O ran cyswllt naturiol, mae cyswllt fwyaf amlwg Clynnog efo ardal Trefor a Llanaelhaearn ond mae'r sedd bresennol hefyd yn cynnwys Pantglas.

DS Canlyniad Opsiwn 2 yw lleihau un sedd eto
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

Opsiwn 3 (Opsiwn a gyniwyd gan y Cynghorydd Aled Wyn Jones) yw bod etholaeth presennol Llanaelhaearn (1,151) yn aros fel ag y mae er y byddai ei alw yn "Yr Eifl" yn fwy synhwyrol. Byddai ward Nebo wedyn yn cael ei ychwanegu at Clynnog i greu etholaeth newydd o 946 o etholwyr (sydd yn dal yn etholaeth bychan iawn yn nhermau'r Comisiwn) a'i dynnu oddi wrth ward Llanllyfni fyddai'n lleihau maint y ward hwnnw i 1,379 mwy rhesymol. Byddai hyn yn cyfarch pryderon Cyngor Cymuned Pistyll am gysylltu cymunedau bychain gwledig gydag ardaloedd mwy a gwahanol iawn.

Byddai hynny'n golygu dim colled yn nifer yr aelodau.

8.15 <u>Ardal Abererch, Efail Newydd, Pentre Uchaf a Buan</u>

Mae amryw o gymunedau bychan yn yr ardal hon a rhaid meddwl am y cysylltiadau cymunedol y mae angen eu gwarchod pan ddaw newid gan y Comisiwn.

Awgrymir, am y tro, uno Abererch (449), Efail Newydd (367) a Pentre Uchaf (252) a Cymuned Buan i gyd (379) i greu un etholaeth newydd o 1,447 (ardal ar draws dau Gyngor Cymuned)
Byddai hyn a'r newid a awgrymir yn 8.14 yn arwain at leihad o 1 aelod
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.16 <u>Ardal Penllyn</u>

Mae angen peth tacluso yn yr ardal hon i ddiogelu sefyllfa rhai etholaethau bychan allai fod o dan fygythiad.

Awgrymir cyfnewid wardiau rhwng y ddwy etholaeth bresennol ond cadw dwy sedd fel bod 3 sedd yn yr ardal gyfan , sef y Bala a hefyd Gorllewin Penllyn - Llanuwchllyn (494), Cwm y Glyn (83) a Llanycil (323) (etholaeth o 900) a Dwyrain Penllyn – Gwalia (125), Llan y Betws (456) a Llanfor (347) (etholaeth o 928). Mae'r etholaethau yn fychan o edrych i'r dyfodol ond mae'n anorfod mewn ardal mor wledig.
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

8.17 <u>Ardal Llanegryn, Bryncrug a'r Friog</u>

Mae angen cyfarch sefyllfa etholaethau yn yr ardal.  (Dim ond 755 o etholwyr sydd gan Bryncrug a Llanfihangel ar hyn o bryd tra mae etholaeth Llangelynnin yn 1,577 o etholwyr) Awgrymir symud ward Llanegryn o un etholaeth i'r llall er mwyn creu dau etholaeth wedi eu hail-drefnu:-
Llanegryn, Bryncrug a Llanfihangel = 1,000 (ardal 3 Chyngor Cymuned)
Y Friog, Islaw'r Dre a Llangelynnin = 1,332 (ardal 2 Gyngor Cymuned)
(Mae mapiau yn dangos y ffiniau presennol a'r hyn awgrymir wedi eu hatodi)

**Crynhoi**

9. Gwahoddir y pwyllgor i:-

a. Gyflwyno argymhellion i'r Cyngor llawn ar gynigion gan y Cyngor hwn i'r Comisiwn Ffiniau.
b. Argymell i'r Cyngor ei fod yn pwyso eto ar y Comisiwn Ffiniau i roi sylw i anghenion cynrychiolaeth leol effeithiol ac effaith y boblogaeth sydd ddim ar y gofrestr etholwyr wrth lunio ei gynigion.